



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Uwch Ddarlithydd mewn Therapi Iaith a Lleferydd
Ysgol:	Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd
Lleoliad:	Campws Llandaf
Gradd:	8 A/B
Cyflog:	£53,301 - £61,759 y flwyddyn
Oriau:	37 awr yr wythnos
Deiliadaeth:	Parhaol

Crynodeb Rôl:

Bydd deiliad y swydd yn darparu addysgu academiaidd a chlinigol mewn anhwylderau lleferydd, iaith a chyfathrebu ac felly'n cyfrannu at ddarparu ystod o fodiwlau o fewn y rhaglen BSc (Anrh) mewn Therapi Iaith a Lleferydd ac at ddatblygu proffil ymchwil yr adran. Bydd cyfran sylweddol o'r addysgu hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd hefyd ddarparu arbenigedd clinigol sy'n ymwneud â gweithio gydag anhwylderau lleferydd, iaith a chyfathrebu amrywiol yn y Gymraeg. Bydd deiliad y swydd wedi'i gofrestru gyda HCPC ac wedi bod yn gweithio fel therapydd iaith a lleferydd ers o leiaf 5 mlynedd. Bydd ganddynt brofiad o oruchwylio myfyrwyr ar leoliad.

Bydd deiliad y swydd yn rhan o gymuned ehangach o staff academiaidd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a ledled Cymru sy'n gweithio tuag at wireddu nod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ymgorffori'r Gymraeg fel rhan annatod o batrwm dysgu gydol oes i bobl Cymru. Bydd yn chwarae rhan allweddol wrth weithredu Cynllun Pwnc Proffesiynau Iechyd y Coleg Cymraeg lle canolbwyntiwch ar ddatblygu graddedigion sydd â'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y cleifion a'r defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys gallu cyfathrebu a rhyngweithio â nhw yn eu dewis iaith.



PROFFIL Y RÔL

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cymorth addysgu a dysgu

- Dylunio, datblygu a chyflwyno ystod o raglenni astudio (weithiau ar gyfer cyrsiau cwbl newydd) ar wahanol lefelau.
- Adolygu cynnwys a deunyddiau'r cwrs yn rheolaidd, gan ddiweddarau pan fo angen.
- Datblygu a chymhwyso technegau a deunyddiau addysgu priodol sy'n creu diddordeb, dealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith myfyrwyr.
- Sicrhau bod dyluniad a chyflwyniad cyrsiau yn cydymffurfio â safonau a rheoliadau ansawdd y brifysgol a'r adran.

Ymchwil ac ysgolheictod

- Cymryd rhan mewn ymchwil pedagogaid ac ymarferwyr a gweithgareddau ysgolheigaidd eraill.
- Cyfrannu at ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu.
- Gweithio ar y cyd ag eraill i gymhwyso gwybodaeth pwnc i ymarfer.

Cyfathrebu

- Lledaenu syniadau cysyniadol a chymhleth i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

Cyswllt a rhwydweithio

- Arwain a datblygu rhwydweithiau mewnol er enghraifft drwy gadeirio a chymryd rhan mewn pwyllgorau Ysgol a Sefydliadol.
- Darparu cyngor proffesiynol e.e. fel arholwr allanol.
- Arwain a datblygu rhwydweithiau allanol er enghraifft gydag arholwyr ac aseswyr allanol.
- Datblygu cysylltiadau â chysylltiadau allanol fel cyrff addysgol eraill, cyflogwyr a chyrff proffesiynol i feithrin cydweithio.

Rheoli pobl

- Darparu arweinyddiaeth academaidd i'r rhai sy'n gweithio o fewn meysydd rhaglen, fel arweinydd cwrs neu gyfwerth, trwy er enghraifft gydlynu gwaith eraill i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol neu drefnu gwaith tîm trwy gytuno ar amcanion a chynlluniau gwaith gan gyfeirio at y Llawlyfr Academaidd.
- Cyfrannu at ddatblygiad timau ac unigolion.
- Gweithredu fel mentor personol i gyfoedion a chydweithwyr.
- Datrys problemau sy'n effeithio ar ansawdd cyflwyno cyrsiau a chynnydd myfyrwyr o fewn meysydd cyfrifoldeb eu hunain, gan gyfeirio materion mwy difrifol at eraill, fel y bo'n briodol.
- Arwain/cyfrannu at gyrsiau trwy addysgeg / gweithgarwch ymchwil.

Gwaith tîm

- Arwain timau o fewn meysydd cyfrifoldeb.
- Helpu i sicrhau bod timau o fewn yr adran yn cydweithio.
- Cymryd rhan i helpu i ddatrys gwrthdaro o fewn a rhwng timau.

Gofal bugeiliol

- Yn gyfrifol am ddelio â materion a gyfeiriwyd atynt ar gyfer myfyrwyr o fewn eu rhaglenni addysgol eu hunain.
- Darparu cefnogaeth rheng flaen i gydweithwyr, gan eu cyfeirio at ffynonellau cymorth pellach os oes angen.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Datrys problemau sy'n effeithio ar gyflwyno cyrsiau o fewn eich rhaglen addysgol eich hun ac yn unol â'r rheoliadau.
- Gwneud penderfyniadau ynghylch agweddau gweithredol eich rhaglen addysgol eich hun.
 - e.e Cyfrannu at benderfyniadau sydd ag effaith ar raglenni cysylltiedig eraill.
 - Monitro cynnydd a chadw myfyrwyr.
 - e.e Rhoi cyngor ar faterion megis sicrhau cydbwysedd digonol o boblogaeth myfyrwyr, penodiadau a materion myfyrwyr a materion perfformiad eraill.
 - e.e Canfod cyfleoedd ar gyfer datblygiad strategol cyrsiau newydd neu feysydd gweithgaredd priodol a chyfrannu at ddatblygu syniadau o'r fath.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Yn gyfrifol am gyflwyno rhaglenni addysgol ei hun.
- Cyfrannu trwy'r timau rydych yn aelod ohonynt at reolaeth gyffredinol yr adran mewn meysydd fel rheoli adnoddau, busnes a chynllunio rhaglenni.
- Arwain wrth osod safonau a monitro cynnydd yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer maes cyfrifoldeb ei hun.
- Bod yn rhan o wahanol lwybrau mewn cynllunio strategol ar lefel adrannol a chyfrannu at brosesau cynllunio strategol y Sefydliad.
- Cynllunio a chyflwyno ymgynghori neu raglenni tebyg o fewn cyfyngiadau adnoddau sydd ar gael.
- Bod yn gyfrifol am ansawdd, archwilio ac asesiadau allanol eraill yn y meysydd cyfrifoldeb ei hun.

Gofynion synhwyraidd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwysu pwysau gofynion addysgu, ymchwil a gweinyddol a therfynau amser cystadleuol.

Amgylchedd gwaith

Yng nghyd-destun Polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, efallai y bydd disgwyl i chi gymryd cyfrifoldeb am gynnal asesiadau risg a lleihau peryglon, yn dibynnu ar faes gwaith (e.e. labordai, gweithdai, stiwdios).

Arbenigedd

- Dealltwriaeth fanwl o'ch arbenigedd eich hun i alluogi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd o fewn y maes, a thrwy gymhwyso.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. Nid yw'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau i fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y bydd tasgau cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell .

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan Metropolitan Caerdydd .

**Polisiau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd,
Gwasanaethau Pobl ac Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.**



MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Uwch Ddarlithydd mewn Therapi Iaith a Lleferydd (cyfrwng Cymraeg)

Ysgol/Uned: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

***Allwedd**

A - Ffurflen gais
C - Cyfweiliad
Cyfl - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR GAN		
		Ff*	C*	Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd arhwydedd dda. Cymhwyster lefel doethuriaeth neu brofiad clinigol arbenigol cyfwerth. Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac yn bendant o fewn tair blynedd i ddechrau cyflogaeth). Therapydd iaith a Lleferydd cofrestredig Aelod o'r HCPC	✓ ✓ ✓ ✓ ✓	✓	
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. Cymhwyster lefel meist'r neu ddoethuriaeth a enillwyd	✓ ✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth fanwl am bwnc arbenigol a maes proffesiynol. Dealltwriaeth fanwl o addysgeg. Dealltwriaeth fanwl o ymchwil/arloesi a gweithgareddau ysgolheigaidd. Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus	✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓	✓ ✓
Gwybodaeth (Dymunol)	Tystiolaeth o waith ar lefel cenedlaethol mewn pwnc arbenigol neu faes proffesiynol	✓		

<p>Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)</p>	<p>Dealltwriaeth gadarn o ymarfer ThILI yn y DU ar draws ystod o feysydd clinigol.</p> <p>Y gallu i adolygu dyluniad rhaglenni yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau ansawdd a rheoliadau academaidd ac i wneud newidiadau lle bo'n briodol.</p> <p>Y gallu i gyfrannu at gyflawniad Cynllun Datblygu'r Ysgol a phrosesau cynllunio strategol y sefydliad.</p> <p>Y gallu i adnabod (trwy ddadansoddi gwybodaeth reoli briodol) meysydd sydd angen perfformiad gwell e.e. niferoedd myfyrwyr, boddhad myfyrwyr.</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p></p> <p></p> <p>✓</p>
---	--	-------------------------------------	----------------------------	--------------------------

Gofynion Eraill (Hanfodol) Sgiliau Cymraeg Am y disgrifiadau llawn o sgiliau, ewch i'n gwefan recriwtio staff.	<u>Gwranddo, Darllen, Siarad, Ysgrifennu</u> C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.	✓	✓	✓
Gofynion Eraill (Dymunol)	N/A			

*Bydd penodiad yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB yn flaenorol).

* Sylwch efallai na fydd cofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i gael gwaith ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB yn flaenorol) ewch i <https://www.gov.uk/crb-troseddol-cofnodion-swyddfa-gwirio>